Ask for/*Gofynnwch am* Matthew Sharp
Our Ref/*Ein Cyf* -
Your Ref/*Eich Cyf* -
Tel/*Ffôn* 01633 656656
Direct Dial/*Rhif* 01633 210058
*DX*
*E-Mail/E-Bost* Matthew.sharp@newport.gov.uk

Civic Centre/Canolfan Ddinesig
Newport/Casnewydd
South Wales/De Cymru
NP20 4UR

Ms Tamsin Davies
Cymdeithas yr Iaith
Ystafell 5
Y Cambria
Rhodfa'r Môr
Aberystwyth
SY23 2AZ

30 Gorffennaf 2015

Annwyl Ms Davies,

Mesur Cynllunio - Yr Iaith Gymraeg

Yn dilyn eich gohebiaeth ddiweddar i Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd ynghylch yr uchod, gofynnwyd imi ymateb ar ei ran.

Gallaf gadarnhau bod Cyngor Dinas Casnewydd yn ymwybodol o'r Mesur Cynllunio newydd a'r gofyniad bod rhaid ystyried y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Ar hyn o bryd, mae ein hadroddiad pwyllgor cynllunio safonol a'n hadroddiad penderfyniadau dirprwyedig yn nodi materion sy'n cael eu hystyried wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio. Yn ogystal â'r polisïau cynllunio arferol, caiff materion eraill megis y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 eu hystyried hefyd. Ein bwriad yw ychwanegu pennawd safonol i'r adroddiadau hyn sy'n amlinellu sut mae'r swyddog cynllunio wedi ystyried goblygiadau posibl y datblygiad arfaethedig ar y Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r Gymraeg gan y rhai sy'n rhan o'r broses gynllunio, gan gynnwys y swyddogion, aelodau a'r datblygwyr.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd amddiffyn y Gymraeg a'i statws atgyfnerthedig yn y Mesur Cynllunio, ac o ganlyniad, bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn rhoi sylw priodol i'r iaith Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

O ran y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), cafodd CDLl Casnewydd ei gyflwyno ym mis Ionawr 2015 yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus gan arolygydd annibynnol. Codwyd yr effaith ar y Gymraeg yn fras gan yr arolygydd yn ystod yr ymchwiliad ac fe esboniwyd y cafodd Asesiad Effaith Cydraddoldeb o'r CDLl ei gynnal. Nodwyd mai rhwng 2-4% o ddinasyddion Casnewydd sy'n gallu siarad Cymraeg, sy'n llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Daethpwyd i'r casgliad, felly, nad yw'r Gymraeg yn rhan arwyddocaol o'r sylfaen cymdeithasol yng Nghasnewydd.

Bydd Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl cyntaf y cyngor yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref yn 2016 a bydd yn ystyried effaith y Mesur Cynllunio newydd ar y CDLl, a fydd hefyd yn cynnwys yr angen i ystyried y Gymraeg. Fodd bynnag, gan nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad ar raddfa helaeth yng Nghasnewydd, mae'n annhebygol y bydd yr elfen hon yn unig yn arwain at adolygiad o'r CDLl.

Gobeithiaf fod yr ymateb hwn yn ymdrin â'r pwyntiau a godwyd gennych yn eich llythyr.

Yr eiddoch yn gywir

Beverly Owen
**Pennaeth Adfywio, Buddsoddi a Thai**

Dear Ms Davies,

Planning Bill – Welsh Language

Further to your recent correspondence to the Leader of Newport City Council regarding the above, I have been asked to respond on his behalf.

I can confirm that Newport City Council is aware of the new Planning Bill and the requirement to consider the Welsh language when determining planning applications. At present, our standard planning committee report and delegated decisions report notes matters which are given consideration when determining a planning application. In addition to the usual planning policies, other matters such as the Crime and Disorder Act 1998 and the Equality Act 2010 are also considered. It is our intention to add a standard heading to these reports which outlines how the planning officer has considered the potential implications of the proposed development on the Welsh language. This will ensure that appropriate consideration is given to the Welsh language by those involved in the planning process, including the officers, members and the developers.

We recognise the importance of protecting the Welsh language and its strengthened status in the Planning Bill, and as a result, Newport City Council will give due regard to the Welsh language in determining planning applications.

In relation to the Local Development Plan (LDP), Newport's LDP was adopted in January 2015 following public examination by an independent inspector. The impact on the Welsh language was briefly raised by the inspector during examination and it was explained that an Equality Impact Assessment of the LDP had been conducted. It was noted that between 2-4% of Newport citizens are able to speak Welsh which is well below the national average. It was therefore concluded that the Welsh language is not a significant part of the social fabric of Newport.

The Council's first LDP Annual Monitoring Report will be published in the autumn of 2016 and it will consider the impact of the new Planning Bill on the LDP, which includes the requirement to consider the Welsh language. However, as the Welsh language is not widely spoken in Newport, it is unlikely that this element alone will trigger a review of the LDP.

I hope this response addresses the points you raise in your letter.

Yours sincerely

Beverly Owen
**Head of Regeneration, Investment and Housing**